



**CANLLAW RHieni AR GYFER MONITRO
PRESENOLDEB YN YSGOLION SIR DDINBYCH**

Mae'r siart llif isod yn amlinellu'r cyfathrebu a champau gweithredu y gall rhieni/ gofalwyr ei ddisgwyl mewn perthynas â phryderon presenoldeb eu plentyn/plant. Mae'r codau (A1 - A6+, AA1 ac AA2) yn cael eu defnyddio gan ysgolion ac Awdurdodau Lleol i gyfeirio lefel y cyfranogiad:

CYFRIFOLDEB RHiant/GOFALWR	
Sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon	
Cysylltu â'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb i ddarparu rheswm (gonest) a chysylltu'n ddyddiol ar ôl hynny i roi diweddariad.	
Ymateb i gyfathrebu gan yr ysgol	
Mynychu cyfarfodydd mewn perthynas â phresenoldeb yn yr ysgol os/pan fo angen	

CAMAU GWEITHREDU GAN YR YSGOL I FONITRO A RHEOLI PRESENOLDEB	
A1	Neges destun neu alwad ffôn i'r rhiant/gofalwr os yw plentyn yn absennol heb reswm. Os nad oes ateb, ewch i A2
A2	Neges destun/galwad ffôn dilynol Dim ymateb, ewch i A3
A3	Llythyr adref i ofyn am reswm dros yr absenoldeb

Os bydd yr absenoldeb yn parhau heb eglurhad am 3 diwrnod a mwy neu heb ei dderbyn gan yr ysgol (heb awdurdod) cymerir y camau canlynol:

Os yw'r ysgol yn derbyn yr absenoldeb (awdurdodedig) cymerir y camau canlynol:

A4	Cyfarfod yn yr ysgol gyda rhiant/gofalwr i gynnig cefnogaeth er mwyn atal mwy o absenoldebau heb awdurdod. Cynllun Cefnogi Presenoldeb i gael ei lunio. Adolygiadau rheolaidd (bob pythefnos). Ystyried Rhybudd Cosb Benodedig i atal pryderon presenoldeb parhaus. Os nad oes gwelliant mynd i A4+	AA1	Yn dilyn 10+ diwrnod o absenoldebau awdurdodedig (neu'n gynharach os oes angen), cyfarfod yn yr ysgol gyda rhiant/gofalwr i wneud y mwyaf o bresenoldeb. Cynllun Cefnogi Presenoldeb (CCP)/Cynllun Cefnogi Gofal Iechyd i gael ei lunio. Adolygiadau rheolaidd (bob pythefnos). Dim gwelliant, a lle canfyddir nad oes unrhyw dystiolaeth feddygol glir i atal presenoldeb yn yr ysgol, mynd i AA2
A4+	Cyfarfod yn yr ysgol gyda rhiant/gofalwr i adolygu a diwygio'r Cynllun Cefnogi Presenoldeb. Cyfarfodydd adolygu rheolaidd (bob pythefnos). Ystyried Rhybudd Cosb Benodedig i atal pryderon presenoldeb parhaus.	AA2	Cyfarfod yn yr ysgol gyda rhiant/gofalwr i egluro'r pryderon meddygol. Lle nad oes rhesymau iechyd dilys, bydd absenoldebau pellach yn cael ei gofnodi fel un heb awdurdod a bydd yn cael ei reoli i lawr y llwybr heb awdurdod, ewch i A4/A4+.

Awdurdod Lleol yn rheoli absenoldebau parhaus heb awdurdod

A5	Atgyfeiriad o'r ysgol i'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg. Asesiad wedi'i gynnal ynglŷn â phryderon presenoldeb yn yr ysgol. Llunio Cynllun Cefnogi Presenoldeb - anelu at atal camau cyfreithiol lle y bo'n bosibl. Atgyfeiriadau o gymorth i asiantaethau eraill yn cael eu hystyried.
A5+	Os bydd angen cyfarfod yn yr ysgol i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon a nodwyd yn yr asesiad sy'n atal presenoldeb yn yr ysgol. Adolygiadau rheolaidd (bob pythefnos). Dim gwelliant mynd i A6
A6	Cyfarfod Panel Presenoldeb Llywodraethwyr yn yr ysgol. Adolygu camau gweithredu'r ysgol a'r gwasanaeth Gweithiwr Cymdeithasol Addysg. Adolygiadau rheolaidd (bob pythefnos).
A6+	Os nad oes gwelliant ystyried camau cyfreithiol.

